TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
cyswllt@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
contact@tfw.wales
tfw.wales



Nick Ramsay AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Y Senedd
Caerdydd
CF99 1SN

27 Tachwedd 2020

Annwyl Mr Ramsay,

Diolch yn fawr am ein gwahodd i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am y rhwystrau rhag llwyddo i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Trafnidiaeth Cymru (TrC) dan berchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, ac mae'n cyflawni dyletswyddau ar ran Gweinidogion Cymru. Rydym wedi croesawu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llwyr, ac rydym wedi ymrwymo i'w rhoi ar waith. Buom yn gweithio'n agos gyda Chomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol a'r tîm i gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghytundeb Grant y Gwasanaethau Rheilffyrdd, ac rydym wedi gweithio i wreiddio'r Ddeddf yn Trafnidiaeth Cymru ac yng Ngwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru (Keolis Amey).

Mae gennym dimau datblygu cynaliadwy yn y ddau sefydliad, sy'n cydweithio'n agos i gyflawni ein huchelgeisiau o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar y lefel gynghori, mae gennym dîm profiadol sy'n rhoi arweiniad, cyngor a gwybodaeth o fewn y sefydliad ac i'r tîm yn y Gwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, ac sydd hefyd yn cyflawni prosiectau ac yn adrodd ar ein dyletswyddau cyfreithiol yng nghyswllt Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd.

Mae'r tîm yng Ngwasanaethau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru yn cymryd camau ymarferol i wella gweithrediad y rheilffyrdd drwy wella gorsafoedd, lleihau faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio, a gwella'r llwybrau teithio llesol.

Fel sefydliad sydd heb gael ei restru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae ein safbwyntiau ni'n gyfyngedig ynghylch yr adnoddau a'r cymorth a roddir i gyrff cyhoeddus. Nid ydym yn cael y gefnogaeth a roddir i gyrff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac nid oes gennym fynediad at yr holl adnoddau sydd gan gyrff cyhoeddus i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Ond byddem yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o hynny.

Rydym ni'n un o blith nifer o sefydliadau yng Nghymru sydd heb gael eu rhestru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond sydd wedi dewis mabwysiadu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel ffordd o wreiddio datblygu cynaliadwy. Mae Dŵr Cymru yn enghraifft arall, ac rydym wedi bod yn cydweithio â nhw am eu dull gweithredu ar ôl iddynt ysgrifennu atom, yn garedig iawn, i ganmol ein Cynllun Datblygu Cynaliadwy ym mis Rhagfyr 2019.

Mae cynrychiolydd o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn eistedd ar Banel Cynghori Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Panel Cynghori yn cynnwys cynrychiolwyr ar ran cwsmeriaid, y llywodraeth, y diwydiant a phobl â nodweddion gwarchodedig. Nod y Panel Cynghori yw rhoi adborth, craffu a rhoi cyngor i Trafnidiaeth Cymru ar amrywiaeth eang o bynciau a materion, gan sicrhau ein bod yn gwrando, yn cydweithio ac yn derbyn arweiniad yn uniongyrchol gan y Comisiynwyr, grwpiau defnyddwyr a chymunedau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Mae dan gadeiryddiaeth annibynnol, ond mae'n cael cefnogaeth Trafnidiaeth Cymru. Mae'r Panel Cynghori yn arwain y ffordd gyffredinol yr ydym yn cyfranogi, ac mae'n cefnogi ein strwythur ymgysylltu yn ehangach, gan gynnwys ein byrddau rhanddeiliaid rhanbarthol a grwpiau cynghori eraill.

Rydym hefyd wedi sefydlu Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cynaliadwy, sy'n cynnwys aelodau sy'n cynrychioli naill ai un o nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol neu un o'r pum Dull o Weithio. Bydd y Grŵp yn ein helpu drwy roi cyngor ar bob un o'r pynciau hyn, a chryfhau ein gwybodaeth. Dylai hefyd ein helpu drwy gwestiynu ein penderfyniadau a herio ein dehongliadau o'r Nodau a'r Dulliau o Weithio. Cynhelir ein cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr.

**1. Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i goblygiadau.**

Mae gennym dim profiadol, sy'n ein helpu ni i wreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi datblygu Cynllun Datblygu Cynaliadwy cyffredinol, sy'n cynnwys manylion am ein cynlluniau cyflawni ar gyfer holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r dogfennau ategol, fel ein Cynllun Carbon Isel.
Mae aelodau tîm Trafnidiaeth Cymru yn cael eu cyflwyno i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ystod proses gynefino'r sefydliad, ac maent yn cael hyfforddiant rheolaidd ar y Ddeddf a'r themâu cysylltiedig.

Rydym yn cyhoeddi diweddariad blynyddol, ac yn paratoi astudiaethau achos ar brosiectau a darnau o waith rydym wedi'u gwneud i gyflawni'r nodau a'r dulliau o weithio. Rydym wedi cyflwyno hyrwyddwyr datblygu cynaliadwy ym mhob Cyfarwyddiaeth, ac maen nhw'n cael hyfforddiant rheolaidd ar themâu sy'n ymwneud â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
Rydym hefyd wedi cynnwys gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, a'r modd rydym yn cyflawni mewn perthynas â hi, yn Adroddiad Blynyddol ein Cwmni

Fe wnaethom ni ofyn yn ddiweddar i'n hyrwyddwyr gynnal arolygon o'r penderfyniadau allweddol drwy ddefnyddio ein hadnodd sgrinio polisi, sy'n adolygu'r modd mae'r ffordd o wneud penderfyniadau wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ynghyd â deddfwriaeth allweddol arall, megis y Ddeddf Diogelu Data, y Ddeddf Cydraddoldeb a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r adnodd sgrinio hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd i asesu ein polisïau sefydliadol cyn iddynt gael eu rhoi ar waith.

Pan fydd aelodau newydd o'r tîm yn ymuno â Thrafnidiaeth Cymru, mae eu hymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eithaf isel ar y cyfan, a'r bobl hynny sydd wedi cael eu cyflogi yn y sector preifat neu'r tu allan i Gymru sydd â'r lleiaf o wybodaeth. Efallai eu bod wedi clywed am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond nid ydynt yn deall sut mae gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn eu swydd. Mae'r Tîm Datblygu Cynaliadwy yn Nhrafnidiaeth Cymru yn treulio amser gyda thimau yn egluro sut gellir gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Cafwyd llwyddiant ym meysydd Caffael, Cyfathrebu, Adnoddau Dynol a Seilwaith. Mae'r Uwch Dîm Arwain yn ymwybodol iawn o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac maent yn hyrwyddwyr ar gyfer y Ddeddf.

**Enghraifft:** Rydym wedi cael yr allweddi i'n swyddfa newydd ym Mhontypridd yn ddiweddar. Mae'r adeilad wedi cael sgôr Rhagorol ar gyfer BREEAM, ac mae ganddo arae fawr ar gyfer paneli solar a system casglu dŵr, yn ogystal â llawer o le i storio beiciau a phwyntiau gwefru cerbydau trydan. Drwy ddeall canfyddiad y cyhoedd o'r symudiad hwn i swyddfa newydd gan ddefnyddio arian cyhoeddus, a dysgu gan eraill megis Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Abertawe, fe wnaethom ni gaffael dodrefn ein swyddfeydd yn gynhaliady, gyda chymorth gan WRAP Cymru. O ganlyniad i'r prosiect caffael cynaliadwy, fe wnaethom ni greu Tîm traws-gyfarwyddiaethau mewnol, sy'n cynnwys cydweithwyr yn yr adrannau Caffael, Datblygu Cynaliadwy, Masnachol, Cyfathrebu a Gwasanaethau Corfforaethol, a buom yn gweithio gyda'n partneriaid, sef Rype Office a Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful i sicrhau'r canlynol:

- Mae 32% o'r dodrefn yn y swyddfa yn ddodrefn ail-law gan TrC
- Mae 44% o'r dodrefn yn ddodrefn ail-law gan sefydliadau eraill
- Mae 3% o'r dodrefn wedi cael eu gwneud â llaw ym Mhentre gan weithwyr Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful, ac mae'r holl staff wedi cael y Cyflog Byw Gwirioneddol
- Mae 21% o'r dodrefn yn rhai newydd, ac mae 14% o'r dodrefn hynny wedi dod o ffynonellau lleol
- Mae'r prosiect hwn wedi arbed 84,000 kg o garbon a 31,000 kg o ddodrefn. Rydym hefyd wedi arbed 2,500kg o garbon drwy ddefnyddio paent wedi'i ailgylchu i beintio'r tu mewn i'r swyddfa.

Mae rhai o’n rhanddeiliaid allweddol a’n partneriaid cyflawni wedi dangos i ni nad oes ganddynt lawer o ymwybyddiaeth na dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Mae hyn yn achosi pryder i ni, gan ei fod yn achosi gwrthdaro wrth i ni weithio gyda’n partneriaid a’n cadwyn gyflenwi. Y rheswm am y diffyg ymwybyddiaeth yw mai dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yn unig yw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, ac oni bai fod gan sefydliadau gontractau â chyrff cyhoeddus, mae’n bosibl na fyddent wedi cael cysylltiad â'r ddeddf.

Rydym wedi gweithio’n agos gyda Busnes Cymru i gynnig cymorth i’n cadwyn gyflenwi er mwyn codi ymwybyddiaeth o’n gofynion o dan y Ddeddf. Rydym hefyd wedi cynnal Diwrnodau Cyflenwyr, wedi mynychu digwyddiadau fel Procurex ac wedi cynnal gweminarau gyda’n cadwyn gyflenwi i godi ymwybyddiaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’r ddyletswydd sydd arnom. Rydym hefyd wedi rhoi cyflwyniad i sefydliadau fel y Gymdeithas Prosiectau Mawr a’r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn ynghylch y ffordd rydym ni’n mynd ati i wreiddio datblygu cynaliadwy, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol.

**Enghraifft:** Rydym wedi bod yn gweithio’n ddiweddar ar ddatblygu dull mwy hyblyg o weithio, oherwydd y pandemig. Rydym wedi cael cyflwyniadau gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol a Chymdeithas Tai Unedig Cymru. Newid Syml #25 yw cael polisi gweithio’n hyblyg, ond does dim astudiaeth achos ar ei weithredu a dim rhestr o sefydliadau eraill sydd wrthi’n gweithredu'r Newid Syml. Byddai'r wybodaeth hon wedi bod yn gymorth i ni gyflawni'r Newid Syml, yn hytrach na chael sawl sefydliad yn chwilio am gymorth o'r fath.

O ran ei gweithredu, gwelsom fod rhai sefydliadau sy'n gwybod am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ansicr sut i'w chyflawni yn ymarferol. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r ffaith mai dyletswydd ar y sector cyhoeddus yw Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, felly nid yw’r offer a’r adnoddau sydd ar gael i'r cyrff cyhoeddus yn hysbys y tu allan i'r sector cyhoeddus, er eu bod ar gael ar wefan y Comisiynydd. Rydym wedi defnyddio’r canllaw ‘Y Gallu i Greu’ i ddatblygu ein fersiwn ein hunain o’r ‘Newidiadau Syml’ i aelodau’r tîm.

Nid oes mecanwaith adrodd clir ar gyfer y canllaw ‘Newidiadau Syml’, ac nid oes rhestr o'r sefydliadau sydd wedi’u mabwysiadu. Mae rhai astudiaethau achos ar gael ar yr adran ‘Newidiadau Syml’ ar y wefan, ond bydd mwy o enghreifftiau a rhestr o sefydliadau sy’n mabwysiadu'r ‘Newidiadau Syml’ yn creu mwy o gyfle i gydweithio.

O ganlyniad i ohebu'n ddiweddar â Chyfoeth Naturiol Cymru yng Ngogledd Cymru, rydym wedi cael ein gwahodd i ymuno â’r cyfarfod cyntaf ar y cyd o Grwp Amgylcheddol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint a Wrecsam.  Byddem yn croesawu’r cyfle i helpu i gyflawni Cynlluniau Llesiant Lleol.

**2. Yr adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus i weithredu’r Ddeddf, a pha mor effeithiol maent wedi cael eu defnyddio.**

Rydym yn ymwybodol o rai o’r adnoddau sydd wedi cael eu darparu i gyrff cyhoeddus sydd wedi’u rhestru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, ac rydym wedi cyfeirio at yr adnoddau ‘Newid Syml’ uchod. Rydym yn ymwybodol o’r rhaglenni ‘Y Gallu i Greu’ a’r ‘Diogelwyr Taith’. Cafwyd llawer o ohebiaeth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol pan gafodd y rhaglen ‘Y Gallu i Greu’ ei rhyddhau, felly rydym yn ymwybodol o’r adnodd. Rydym hefyd wedi defnyddio Llwyfan y Bobl, ac yn dilyn cyflwyniad gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar yr arolwg “SenseMaker”, rydym wedi’i ddefnyddio i gasglu, ymgysylltu a llywio gwybodaeth ar gyfer cynllunio trafnidiaeth.

**3. Y gefnogaeth a roddir i gyrff cyhoeddus gan Gomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.**

Rydym yn cydnabod Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, a byddem yn croesawu’r cyfle i gael ein rhestru’n uniongyrchol fel corff cyhoeddus dan y Ddeddf. Rydym yn ymwybodol o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn gyhoeddus, a rhai o’r adnoddau sydd ar gael i gyrff cyhoeddus fel y nodir uchod. Mae aelod o Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol yn eistedd ar Banel Cynghori TrC, ac mae’r Comisiynydd wedi darparu cyngor i'n Bwrdd ac i’n Prif Weithredwr. Rydym wedi bod mewn sesiwn eleni ar y dull gweithredu ‘Tri Gorwel’ a hyrwyddir gan y Swyddfa. Roedd y sesiwn yn ddefnyddiol a chafwyd cyfleoedd da ar y diwrnod i rwydweithio ag amrywiaeth o sefydliadau traws-sector.

**4. Rôl arweinyddol Llywodraeth Cymru.**

Rydym eisoes yn cydnabod, yn cefnogi ac yn gweithredu'r argymhellion sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, a byddem yn croesawu'r cyfle i weithio rhagor â Llywodraeth Cymru a swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i weithredu rhagor ar eu hargymhellion yn ein gwaith.

**5. Unrhyw rwystrau eraill rhag gweithredu’r Ddeddf yn llwyddiannus (e.e. Brexit, COVID, ac ati).**

Mae niwed economaidd yn un o’r rhwystrau a allai ddatblygu ar ôl Covid-19. Er y gallai dirywiad economaidd difrifol dynnu oddi ar yr argyfwng hinsawdd ac oddi ar y gwaith o weithredu'r Ddeddf, gwelsom effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd yn ystod yr argyfwng economaidd yn 2008. Dyma’r unig flwyddyn pryd nad oedd ‘Earth Overshoot Day’ yn gynt na’r blynyddoedd blaenorol, ac mae 2020 wedi gweld canlyniadau llawer gwell.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Syr David Henshaw arwain y prosiect adferiad gwyrdd, ac rydym yn cyfathrebu â’r tîm i drafod rhai o’r awgrymiadau ar gyfer adferiad gwyrdd.

Dylai'r arferiad ar ôl Covid-19 fod yn gyfle i greu dyfodol gwell, - i gychwyn o’r newydd. Mae TrC yn parhau i ddatblygu ei weledigaeth i gael trafnidiaeth gyhoeddus well yng Nghymru, ac mae’n cydnabod hefyd, yng ngoleuni covid-190, fod cyfle i greu ac ymgysylltu

llawer mwy er mwyn darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus y gall Cymru fod yn falch ohono.

**6. Sut mae sicrhau bod y Ddeddf yn cael ei gweithredu'n llwyddiannus yn y dyfodol.**
Ar hyn o bryd, mae arweiniad cyfyngedig i sefydliadau sydd heb ddyletswydd i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae cyfleoedd i wneud newidiadau cyllidebol i'w galluogi i ddiwygio eu ffyrdd o weithio. Mae'r Rheolau Caffael Cyhoeddus yn enghraifft o hyn, lle mae rhywfaint o wrthdaro rhwng yr hyn y mae'r gyfraith yn ei ddatgan a'r hyn y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ceisio'i gyflawni.


Mae angen mwy o gydweithio rhwng cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym wedi sefydlu ein Panel Cynghori ar Ddatblygu Cynaliadwy i gefnogi ein saernïaeth ymgynghorol, ac i sicrhau ein bod yn mynd ati'n effeithiol i wreiddio Dulliau o Weithio a Nodau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein gwaith, ac i rannu hynny â'n rhanddeiliaid.

Bydd y grŵp yn gyfle i ni ddangos, cyflwyno a rhannu'r gwaith datblygu cynaliadwy rydym yn ei wneud, ac i gynnig adborth, sicrwydd ac arweiniad ar ein gweithgareddau fel rhan o'n Cynllun Datblygu Cynaliadwy. Mae aelodau'r Panel yn cynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru.
Drwy fod yn atebol i sefydliadau sy'n arbenigo mewn pwnc, bydd hynny'n ein helpu ni i sicrhau ein bod yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn llwyddiannus.

Mae angen i bawb fod yn trafod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae angen i'r bobl sy'n rhoi'r Ddeddf ar waith wneud ymdrech fawr i godi ymwybyddiaeth ohoni.

Nid mater i gyrff cyhoeddus yn unig yw cyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae hyrwyddwyr Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i'w cael ymhob sector, ac mae angen iddynt fod yn gallu rhannu eu profiadau o gyflawni'r Ddeddf a chynnig cyfleoedd i ehangu'r cydweithio a chynnig gwasanaethau gyda'i gilydd. I wneud hyn, credwn y gallai fod yn fuddiol i gael cyfnewidfa neu rwydwaith ar gyfer sefydliadau sydd heb fod wedi'u rhestru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn gywir



James Price
Prif Weithredwr, Trafnidiaeth Cymru